# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA623 - Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) (Adolygu) 2015

## Gweithdrefn

Negyddol

## Cefndir

Mae adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub, y mae'n rhaid iddo osod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.  Caiff hefyd ddarparu canllawiau i awdurdodau tân ac achub o ran cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub roi sylw i'r fframwaith wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016 ("y Fframwaith") yn lle Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2012.

## Craffu Technegol

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Gwnaed y Gorchymyn ar 23 Tachwedd 2015, ond honnai roi effaith i ddogfen nad oedd yn bodoli ar y pryd – y Fframwaith newydd a oedd i'w gyhoeddi ar 25 Tachwedd.

[Gwaith drafftio diffygiol – Reol Sefydlog 21.2(vi)]

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt technegol a nodwyd gan Gynghorwr Cyfreithiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei Adroddiad drafft. Gwnaed Gorchymyn a oedd yn cywiro'r gwall ar 8 Rhagfyr 2015 a gosodwyd ef ar 9 Rhagfyr 2015, gyda dyddiad dod i rym o 1 Ionawr 2016.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Rhagfyr 2015**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales